Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Cyllideb Atodol 2010-2011

Nodyn Esboniadol



Chwefror 2011

ISBN 978 0 7504 5959 4
© Hawlfraint y Goron Chwefror 2011
WAG10-11225
F6371011

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Y Dull o Ddod o Hyd i Arbedion yn Ystod y Flwyddyn .......... 5

3. Newidiadau Allweddol yn y Gyllideb Atodol .......... 6

4. Y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol .......... 8

5. Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol .......... 9

6. Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol .......... 11

7. Yr Economi a Thrafnidiaeth .......... 13

8. Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau .......... 17

9. Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai .......... 20

10. Materion Gwledig .......... 23

11. Treftadaeth .......... 25

12. Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad .......... 28

13. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu .......... 30

Atodiad 1 – Cysoni'r Gyllideb Weinyddol a Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb .......... 33

Atodiad 2 – Rhestr Eirfa .......... 36

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â:
Budget_and_Strategic_Planning@Wales.gsi.gov.uk

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Heddiw, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2010-11, yn unol â Rheol Sefydlog 27. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn diwygio'r Gyllideb Atodol flaenorol ar gymeradwyodd y Cynulliad ar 13 Gorffennaf 2010.

**1.2** Natur weinyddol sydd i'r Gyllideb Atodol hon yn bennaf. Mae'n adlewyrchu'r ailflaenoriaethu a fu o fewn portffolios, ynghyd â nifer o drosglwyddiadau o fewn y gyllideb rhwng portffolios. Yn allweddol, mae hefyd yn cyflawni ein penderfyniad i ddod o hyd i'r holl ostyngiadau i'r gyllideb, a osododd Llywodraeth y DU arnom ym mis Mehefin 2010. Yn ogystal â hyn, mae'n darparu ar gyfer dyraniadau ychwanegol o'n cronfeydd wrth gefn. Mae'r dyraniadau hyn o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u hategu gan adnoddau o'r stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn, ac maent yn cynnwys dyraniadau o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.

**1.3** Mae'r newidiadau arfaethedig yn y Gyllideb Atodol hon wedi'u crynhoi yn y tablau canlynol, ac mae rhagor o fanylion ar gael yn y penodau diweddarach ar yr Adrannau.

**1.4** Mae’r ddogfen hon yn ategu’r rhestrau manwl fesul Cam Gweithredu sydd ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Tabl 1.1 - Dyraniad DEL Cymru - Y Gyllideb Atodol

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyllideb[1] 2010-11 | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig 2010-11 |
| **Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 6,281,397 | 161,412 | 6,442,809 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | | 4,464,559 | -10,145 | 4,454,414 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | | 981,705 | 15,588 | 997,293 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | | 1,949,237 | 121,284 | 2,070,521 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | | 865,273 | 5,352 | 870,625 |
| Materion Gwledig | | 142,765 | -8,866 | 133,899 |
| Treftadaeth | | 157,384 | 23,100 | 180,484 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | | 71,729 | -12,086 | 59,643 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 371,304 | 2,024 | 373,328 |
| **Cyfanswm a Ddyrannwyd i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad** | | **15,285,353** | **297,663** | **15,583,016** |
| Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn | bron yn arian parod | 161,819 | -161,819 | 0 |
| | nad ydynt yn arian parod | 0 | 237 | 237 |
| Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn | | 27,819 | -27,819 | 0 |
| Comisiwn y Cynulliad | | 46,227 | 0 | 46,227 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | | 5,047 | 0 | 5,047 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 4,166 | 21 | 4,187 |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 675 | 0 | 675 |
| **Cyfanswm Gwariant yng Nghyllideb DEL Cymru** | | **15,531,106** | **108,283** | **15,639,389** |

[1] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010

## Tabl 1.2 - Newidiadau i DEL Refeniw a Chyfalaf Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Refeniw 2010-11 | | | Cyfalaf 2010-11 | | |
| Terfynau Gwariant Adrannol (DEL) | | Cyllideb[2] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[3] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 5,877,085 | 147,669 | 6,024,754 | 404,312 | 13,743 | 418,055 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | | 4,401,464 | -10,145 | 4,391,319 | 63,095 | - | 63,095 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | | 601,965 | -31,214 | 570,751 | 379,740 | 46,802 | 426,542 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | | 1,705,445 | 104,541 | 1,809,986 | 243,792 | 16,743 | 260,535 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | | 383,880 | -4,291 | 379,589 | 481,393 | 9,643 | 491,036 |
| Materion Gwledig | | 126,036 | -5,866 | 120,170 | 16,729 | -3,000 | 13,729 |
| Treftadaeth | | 138,962 | -1,550 | 137,412 | 18,422 | 24,650 | 43,072 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | | 50,304 | -7,086 | 43,218 | 21,425 | -5,000 | 16,425 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 355,771 | -1,976 | 353,795 | 15,533 | 4,000 | 19,533 |
| **Cyfanswm a Ddyrannwyd i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad** | | **13,640,912** | **190,082** | **13,830,994** | **1,644,441** | **107,581** | **1,752,022** |
| Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn | bron yn arian parod | 161,819 | -161,819 | 0 | - | - | - |
| | nad ydynt yn arian parod | 0 | 237 | 237 | - | - | - |
| Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn | | - | - | - | 27,819 | -27,819 | 0 |
| Comisiwn y Cynulliad | | 45,452 | -1,600 | 43,852 | 775 | 1,600 | 2,375 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | | 5,047 | 0 | 5,047 | - | - | - |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 3,703 | 21 | 3,724 | 463 | - | 463 |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 675 | 0 | 675 | - | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant yng Nghyllideb DEL Cymru** | | **13,857,608** | **26,921** | **13,884,529** | **1,673,498** | **81,362** | **1,754,860** |

2 Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010
3 Fel yr uchod

## Tabl 1.3 - Cyllideb Atodol AME Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | Cyllideb 2010-11[4] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig 2010-11 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 118,948 | 51,327 | 170,275 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 11,677 | 2,746 | 14,423 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 41,402 | 13,000 | 54,402 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 203,398 | -88,323 | 115,075 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | -77,000 | 24 | -76,976 |
| Treftadaeth | 2,058 | - | 2,058 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 4,500 | 4,500 |
| **Cyfanswm Cyllideb AME Llywodraeth y Cynulliad** | **300,483** | **-16,726** | **283,757** |
| Comisiwn y Cynulliad | 500 | - | 500 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 0 | 36 | 36 |
| **Cyfanswm Gwariant yng Nghyllideb AME Cymru** | **300,983** | **-16,690** | **284,293** |

Mae Tablau 1.1 ac 1.2 yn dangos cyllidebau ar sail weinyddol. Mae'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol, sy'n awdurdodi Gweinidogion Cymru i wario hyd at derfyn penodol at ddibenion penodedig, ar sail adnoddau. Mae Atodiad 1 yn esbonio'r gwahaniaethau hyn yn fwy manwl, ac yn cysoni'r cyllidebau gweinyddol a'r cyllidebau adnoddau.

[4] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010

## 2. Y Dull o Ddod o Hyd i Arbedion yn Ystod y Flwyddyn

**2.1** Yn ei Chyllideb ym mis Mehefin, cwtogodd Llywodraeth y DU symiau net o £113.5 miliwn refeniw a £49 miliwn cyfalaf ar gyllideb Cymru. Cynigiodd Llywodraeth y DU ddwy opsiwn inni, sef derbyn y toriadau'n llawn yn 2010-11, neu eu trosglwyddo i 2011-12. Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf y byddem yn dod o hyd i'r holl ostyngiad cyfalaf a osododd Llywodraeth y DU arnom, yn 2010-11, gan ddefnyddio stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (EYF). Byddai hyn yn golygu y gallem ysgwyddo'r gostyngiad hwn heb effaith ar ein rhaglenni cyfalaf arfaethedig. Ar yr un pryd, gwnaethom egluro y byddem yn dod o hyd i gymaint o'r gostyngiad refeniw ag y gallem eleni heb niweidio gwasanaethau.

**2.2** Yn sgil rheolaeth ariannol ofalus, rydym wedi gallu dod o hyd i'r gostyngiad llawn o £113.5 miliwn refeniw eleni, heb effeithio ar wasanaethau. Adeg llunio'r Gyllideb Ddrafft, gwnaethom ragdybiaeth ddarbodus mai dim ond 50% o'r gostyngiad refeniw y byddem yn dod o hyd iddo yn 2010-11. Drwy ddod o hyd i'r holl ostyngiad refeniw eleni, bydd gennym £56.77 miliwn yn ychwanegol yn 2011-12. Mae hyn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd inni at y dyfodol, a'r cyfle i liniaru'n rhannol ar y gostyngiad mawr iawn yn ein cyllideb cyfalaf yn 2011-12.

## 3. Newidiadau Allweddol yn y Gyllideb Atodol[5]

Mae'r newidiadau allweddol wedi'u crynhoi isod:

### 3.1 Symiau a ildiwyd i'r cronfeydd refeniw wrth gefn i'w hailgylchu i feysydd eraill er mwyn helpu i gwrdd â'r gostyngiadau yng nghyllideb 2010-11 a osodwyd gan Lywodraeth y DU:

- £3.3m o Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol;
- £2m o'r Economi a Thrafnidiaeth;
- £3m o Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
- £3m o'r Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai;
- £6.4m o Faterion Gwledig;
- £1m o Dreftadaeth;
- £4.9m o Wasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad; a
- £3m o Wasanaethau Canolog a Gweinyddu.

### 3.2 Tanwariant a ildiwyd i'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn, i'w ailgylchu i feysydd eraill:

- £9.6m o'r Economi a Thrafnidiaeth;
- £3m o Faterion Gwledig; a
- £5m o Wasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad.

### 3.3 Dyraniadau i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad o'r cronfeydd wrth gefn, wedi'u hategu gan adnoddau o stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn:

**Dyraniadau Refeniw:**

- dyrannu £110m i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fynd i'r afael â phwysau nad ydynt yn rhai rheolaidd ar sefydliadau'r GIG yn 2010-11;
- dyrannu £23.5m i Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i gydnabod cynnydd mewn niferoedd myfyrwyr;
- dyrannu £1.5m i Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau er mwyn mynd i’r afael â phwysau ar anghenion addysgol arbennig ôl 16;
- dyrannu £4.5m i Wasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer costau'r refferendwm ar bwerau ychwanegol i'r Cynulliad;
- dyrannu £1.1m i Wasanaethau Canolog a Gweinyddu er mwyn ategu’r cyllid presennol ar gyfer y Cynllun Rhyddhau’n Gynnar;
- dyrannu £0.3m i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gysylltiedig â throsglwyddiad o'r Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd mewn perthynas â chyllid ar gyfer yr NSPCC/Childline;
- dyrannu £0.2m i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â throsglwyddiad o’r Adran Cyfiawnder ar gyfer cyllido gofal iechyd mewn carchardai; a
- dyrannu £7.1m i'r Economi a Thrafnidiaeth i leddfu'r pwysau ar gyllidebau cynnal a chadw ffyrdd yr Awdurdodau Lleol, pwysau a waethygwyd yn sgil y tywydd garw diweddar.

[5] Mae’r ffigurau yn yr adran hon wedi’u talgrynnu i un pwynt degol. Mae’r manylion llawn yn Nhablau’r Camau Gweithredu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn ogystal â hyn, cynigir y newidiadau canlynol i gyllidebau nad ydynt yn arian parod:

- ildio £40m o danwariant o'r Economi a Thrafnidiaeth i'r cronfeydd wrth gefn;
- dyrannu £39.2m i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adlewyrchu pwysau ar y GIG;
- dyrannu £81.1m i Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar gyfer amhariadau i'r Llyfr Benthyciadau i Fyfyrwyr; a
- dyrannu £0.160m i Faterion Gwledig er mwyn adlewyrchu'r costau, ar 1 Ebrill 2010, sy'n gysylltiedig â'r asedau a drosglwyddwyd o'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr.

**Dyraniadau Cyfalaf:**

- dyrannu £70.1m ar gyfer prosiectau yr ymgymerir â hwy o dan y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol. Ceir rhagor o fanylion hyn yn Adran 4; a
- dyrannu £49.2m i gefnogi rhagor o fuddsoddiad cyfalaf yn y meysydd canlynol:
  - £16.7m i Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
  - £13.7m i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
  - £8.3m i’r Economi a Thrafnidiaeth;
  - £8.4m i’r Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai; a
  - £2m i Dreftadaeth.

### 3.4 Addasiadau i linellau sylfaen refeniw a chyfalaf:

- Mae'r llinell sylfaen bron yn arian parod yn gostwng bron i £53.8m. Mae hyn yn cynnwys:
  - £71.5m a dynnwyd o'r stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn;
  - £0.2m a drosglwyddwyd i mewn o adrannau Llywodraeth y DU;
  - gostyngiad o £113.5m yn y llinell sylfaen a osodwyd gan Gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mehefin;
  - £6.2m a drosglwyddwyd allan i Drysorlys ei Mawrhydi mewn perthynas â Rhyddhad Ardrethi Busnes; a
  - cyfnewidiad refeniw i gyfalaf o £5.9m.
- Mae'r llinell sylfaen nad yw'n arian parod yn codi £81m. Mae hyn yn cynnwys:
  - £31m a dynnwyd o'r stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn; a
  - £50m a hawliwyd o Gronfa Wrth Gefn Trysorlys Ei Mawrhydi.
- Mae'r llinell sylfaen cyfalaf yn codi bron i £81.4m. Mae hyn yn cynnwys:
  - y gostyngiad llinell sylfaen o £49m a osodwyd gan Gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mehefin;
  - £124.5m a dynnwyd o'r stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn; a
  - cyfnewidiad refeniw i gyfalaf o £5.9m.

**3.5** Cewch fanylion dyraniadau eraill yn y penodau diweddarach ar yr Adrannau.

## 4. Y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol

**4.1** Mae'r Gyllideb Atodol hon yn darparu cyfanswm o £70.1m o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol i'r prosiectau canlynol:

- **Yr Economi a Thrafnidiaeth** - mae cyfanswm o £51.6m wedi'i ddarparu i ariannu gwaith deuoli'r A465 Blaenau'r Cymoedd rhwng Tredegar a Bryn-mawr; ariannu gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd rhwng y de a'r gogledd a rhwng y dwyrain a'r gorllewin; ac ariannu'r prosiect Prifddinas y Cyfryngau ym Mae Caerdydd.

- **Treftadaeth** - mae £18.5m wedi'i ddarparu i ailddatblygu Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe; ac i greu canolfan arloesi mewn Gwyddoniaeth a'r Celfyddydau yn y gogledd drwy'r prosiect Pontio.

## 5. Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol

### Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

**5.1** Cafwyd cynnydd net o £161,412k i'r DEL Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol, sy'n cynnwys cynnydd o £147,669k mewn refeniw a chynnydd o £13,743k mewn cyfalaf.

**5.2** Mae'r gyllideb AME wedi cynyddu £51,327k.

**5.3** Newidiadau i'r gyllideb Refeniw:

- trosglwyddo £320k i'r Cam Gweithredu 'Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant' o'r Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd mewn perthynas â chyllid ar gyfer yr NSPCC/Childline, at ddiben ariannu darpariaeth llinell gymorth yng Nghymru.

- trosglwyddo £110,000k i'r Cam Gweithredu 'Cyflenwi'r GIG' o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn cynorthwyo â phwysau nad ydynt yn rhai rheolaidd ar sefydliadau'r GIG yn 2010-11.

- mae £1,442k wedi'i drosglwyddo o'r Cam Gweithredu 'Cyflenwi'r GIG' i'r Cam Gweithredu 'Addysg Uwch' yn y MEG Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar gyfer trosglwyddo myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd i'r Rhaglen MB i Raddedigion yn Abertawe, a ariennir drwy CCAUC.

- gostyngiad net o £853k yn y Cam Gweithredu 'Cyflenwi'r GIG', sy'n cynnwys:
  - trosglwyddo £1,402k allan i'r Cam Gweithredu 'Buddsoddi i Arbed' yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu; a
  - throsglwyddo £549k i mewn o'r un Cam Gweithredu yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

- Cafwyd cynnydd o £39,191k yn y dyraniadau nad ydynt yn arian parod o'r cronfeydd wrth gefn i'r Cam Gweithredu 'Cyflenwi'r GIG', er mwyn mynd i'r afael â phwysau cydnabyddedig yn ystod y flwyddyn yn GIG Cymru.

**5.4** Newidiadau i'r gyllideb Cyfalaf:

- trosglwyddo £13,743k o'r cronfeydd wrth gefn i'r Cam Gweithredu 'Cyflenwi'r GIG' er mwyn cynorthwyo prosiect cyfalaf sy'n cael blaenoriaeth.

**5.5** Hefyd, ceir nifer o drosglwyddiadau llai na £250k i MEGiau eraill ac ohonynt, ac i Adrannau eraill y Llywodraeth ac ohonynt. Yn ogystal â hyn, cafwyd trosglwyddiadau o fewn y MEG yn sgil ailflaenoriaethu mewnol. Ceir y manylion yn nhablau'r Camau Gweithredu, a gyhoeddir ar y cyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

**Tabl 5.1 - Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol**

| DEL | £000oedd | | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Refeniw 2010-11 | | | Cyfalaf 2010-11 | | |
| | Cyllideb[6] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[7] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Cyflenwi'r GIG | 5,341,438 | 164,722 | 5,506,160 | 384,610 | 13,743 | 398,353 |
| Cyllidebau Canolog Iechyd | 264,914 | -676 | 264,238 | 7,000 | - | 7,000 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Salwch | 167,711 | -15,448 | 152,263 | 6,200 | - | 6,200 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 102,564 | -929 | 101,635 | 6,502 | - | 6,502 |
| CAFCASS Cymru | 458 | - | 458 | - | - | - |
| **Cyfanswm DEL** | **5,877,085** | **147,669** | **6,024,754** | **404,312** | **13,743** | **418,055** |
| **AME** | | | | | | |
| Amhariadau'r GIG | 118,948 | 51,327 | 170,275 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **5,996,033** | **198,996** | **6,195,029** | **404,312** | **13,743** | **418,055** |

[6] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010
[7] Fel yr uchod

## 6. Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

### Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

**6.1** Cafwyd gostyngiad refeniw o £10,145k yn y DEL Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

**6.2** Mae'r gyllideb AME wedi cynyddu £2,746k.

**6.3** Newidiadau i'r gyllideb Refeniw:

- trosglwyddo cyfanswm o £9,461k i'r cronfeydd wrth gefn, sy'n cynnwys:
  - £1,000k o'r Cam Gweithredu 'Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol', sef cyfraniad yr Adran i'r arbedion a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn;
  - £2,300k o'r Cam Gweithredu 'Cymunedau yn Gyntaf', sef cyfraniad arall gan yr Adran i'r arbedion a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn; a
  - £6,161k o'r Cam Gweithredu 'Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol' ar gyfer y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes. Addasiad technegol yw'r hwn er mwyn adlewyrchu'r modd y mae'r cynllun yn cael ei ariannu bellach, yn hytrach na newid i'r polisi ei hun na lefel y gwariant.

- trosglwyddo cyfanswm o £434k allan, sy'n cynnwys £335k o'r Cam Gweithredu 'Cam-drin Domestig' a £99k o'r Cam Gweithredu 'Cymunedau yn Gyntaf' i'r Camau Gweithredu canlynol yn MEG yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai:
  - £194k i'r Cam Gweithredu 'Galluogi Pobl i Fyw'n Annibynnol;
  - £141k i'r Cam Gweithredu 'Mynd i'r Afael â Digartrefedd'; a
  - £99k i'r Cam Gweithredu 'Gweithredu'r Ardaloedd Adfywio Strategol'

**6.4** Hefyd, ceir nifer o drosglwyddiadau llai na £250k i MEGiau eraill ac ohonynt. Yn ogystal â hyn, cafwyd trosglwyddiadau o fewn y MEG yn sgil ailflaenoriaethu mewnol. Ceir y manylion yn nhablau'r Camau Gweithredu, a gyhoeddir ar y cyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

**Tabl 6.1 - Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

| DEL | £000oedd | | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Refeniw 2010-11 | | | Cyfalaf 2010-11 | | |
| | Cyllideb[8] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[9] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 4,271,880 | -7,161 | 4,264,719 | 20,000 | - | 20,000 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 59,817 | -3,399 | 56,418 | 31,128 | - | 31,128 |
| Cymunedau Diogelach | 13,423 | 565 | 13,988 | 9,467 | - | 9,467 |
| Polisi Llywodraeth Leol | 38,397 | -150 | 38,247 | - | - | - |
| Polisi Trethiant Lleol | 16,064 | - | 16,064 | - | - | - |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 1,883 | - | 1,883 | 2,500 | - | 2,500 |
| **Cyfanswm DEL** | **4,401,464** | **-10,145** | **4,391,319** | **63,095** | **-** | **63,095** |
| **AME** | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 11,677 | 2,746 | 14,423 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **4,413,141** | **-7,399** | **4,405,742** | **63,095** | **-** | **63,095** |

[8] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010
[9] Fel yr uchod

# 7. Yr Economi a Thrafnidiaeth

## Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

**7.1** Cafwyd cynnydd net o £15,588k yn DEL yr Economi a Thrafnidiaeth, sy'n cynnwys gostyngiad o £31,214k mewn refeniw a chynnydd o £46,802k mewn cyfalaf.

**7.2** Mae'r gyllideb AME wedi cynyddu £13,000k.

**7.3** Newidiadau i'r gyllideb Refeniw:

- trosglwyddo £2,000k i'r cronfeydd wrth gefn o'r Cam Gweithredu 'Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig)', sef cyfraniad yr Adran i'r arbedion a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn.

- trosglwyddo £40,000k o adnoddau dros ben nad ydynt yn arian parod i'r cronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys:
  - £23,459k o'r Cam Gweithredu 'Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig) - Adnoddau Nad Ydynt Yn Arian Parod'; a
  - £16,541k o'r Cam Gweithredu 'Gwella Cysylltedd Rhyngwladol - Adnoddau Nad Ydynt Yn Arian Parod'.

- trosglwyddo £4,160k i'r Cam Gweithredu 'Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus' o'r Cam Gweithredu 'Buddsoddi i Arbed' yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, ar gyfer y prosiect Cysylltedd i Went.

- trosglwyddo £475k o'r Cam Gweithredu 'Darparu Cymorth ar gyfer Masnach Ryngwladol a Sicrhau Mewnfuddsoddiadau o Bob Rhan o'r Byd' i'r Cam Gweithredu 'Datblygu a Marchnata Sector Bwyd a Diod Cymru' yn y MEG Materion Gwledig, ar gyfer cymorth masnachol i ddiwydiant bwyd a diod Cymru.

- trosglwyddo £7,085k o'r cronfeydd wrth gefn i'r Cam Gweithredu 'Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig)' mewn perthynas â phwysau ar gyllidebau cynnal ffyrdd, sef pwysau sydd wedi gwaethygu yn sgil tywydd garw.

**7.4** Newidiadau i'r gyllideb Cyfalaf:

- trosglwyddo £9,598k o'r Cam Gweithredu 'Darparu Cymorth Ariannol i Fusnesau' i'r cronfeydd wrth gefn, sef ad-daliadau yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau a wnaed gan Cyllid Cymru CCC.

- dyraniadau o £51,600k o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol. Mae hyn yn cynnwys:.

    - £4,600k i’r Cam Gweithredu ‘Gwella Cysylltedd Rhyngwladol’ ar gyfer gwaith deuoli ar hyd yr A465;
    - £10,000k i’r Cam Gweithredu ‘Darparu Cyflenwad o Dir ac Adeiladau o Safon Gynaliadwy’ ar gyfer y prosiect Prifddinas y Cyfryngau ym Masn y Rhath; a
    - £37,000k ar gyfer gwelliannau i'r rheilffyrdd rhwng y de a'r gogledd a rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Yn sgil oedi na fu modd ei osgoi, mae'r prosiectau sy'n ymwneud â'r dyraniad hwn wedi cael eu gohirio a byddant yn cael eu hariannu o ddyraniad cyfalaf blynyddol yr Adran ei hun. Yn eu lle, mae'r Gweinidogion wedi cymeradwyo bod yr arian yn cael ei ddefnyddio eleni fel adnodd ar gyfer buddsoddiadau strategol eraill yn y portffolio Trafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys:
        - £6,659k i’r Cam Gweithredu ‘Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig)’;
        - £9,008k i’r Cam Gweithredu ‘Gwella Cysylltedd Rhyngwladol’;
        - £20,582k i’r Cam Gweithredu ‘Gwella a Chynnal y Seilwaith Ffyrdd Lleol’; a
        - £751k i’r Cam Gweithredu ‘Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd’.

- trosglwyddo £8,300k o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiectau ffyrdd a rheilffyrdd. Mae hyn yn cynnwys:
    - £3,500k i’r Cam Gweithredu ‘Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (Rheilffyrdd)’;
    - £3,000k i’r Cam Gweithredu ‘Gwella Cysylltedd Rhyngwladol; a
    - £1,800k i’r Cam Gweithredu ‘Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig)’.

- trosglwyddo £3,500k o'r Cam Gweithredu 'Darparu Cymorth Ariannol i Fusnesau' i'r Cam Gweithredu 'Datblygu Profiad yr Ymwelydd' yn y MEG Treftadaeth, ar gyfer y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth.

**7.5** Hefyd, ceir nifer o drosglwyddiadau llai na £250k i MEGiau eraill ac ohonynt. Ceir y manylion yn nhablau'r Camau Gweithredu, a gyhoeddir ar y cyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

**Tabl 7.1 - Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth**

| DEL | £000oedd Refeniw 2010-11 | | | £000oedd Cyfalaf 2010-11 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb[10] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[11] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Cymorth i Gwsmeriaid a Datblygu Polisïau a Strategaethau | 3,088 | - | 3,088 | - | - | - |
| Cynnal Ymgyrchoedd Marchnata Domestig/Rhyngwladol a Chefnogi Digwyddiadau Mawr | 9,528 | - | 9,528 | 400 | - | 400 |
| Busnesau'n Dechrau, yn Tyfu, yn Ffynnu ac yn Buddsoddi | 35,368 | - | 35,368 | 77,899 | -13,098 | 64,801 |
| Datblygu Seilwaith Cynaliadwy ar gyfer Datblygu Economaidd ac Eraill | 8,102 | - | 8,102 | 16,416 | 10,000 | 26,416 |
| Rhyngwladoli Economi Cymru | 5,525 | -475 | 5,050 | - | - | - |
| Datblygu Cymru'n ganolbwynt ar gyfer Arloesi, Technoleg a Masnacheiddio | 19,196 | - | 19,196 | 2,794 | - | 2,794 |
| Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) | 262,239 | -18,374 | 243,865 | 103,834 | 11,959 | 115,793 |
| Gwella Cysylltedd Rhyngwladol | 140,561 | -16,541 | 124,020 | 38,683 | 16,608 | 55,291 |
| Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol) | 93,006 | 16 | 93,022 | 120,917 | 20,582 | 141,499 |
| Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd | 8,397 | - | 8,397 | 18,257 | 751 | 19,008 |
| Darparu Rhaglenni a Gwasanaethau | 5,550 | - | 5,550 | 540 | - | 540 |

[10] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010
[11] Fel yr uchod

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | | | | | | |
| Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | 10,115 | 4,160 | 14,275 | - | - | - |
| Rheoli'r Gwaith o Weithredu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru | 1,290 | - | 1,290 | - | - | - |
| **Cyfanswm DEL** | **601,965** | **-31,214** | **570,751** | **379,740** | **46,802** | **426,542** |
| **AME** | | | | | | |
| Datblygu Seilwaith Cynaliadwy ar gyfer Datblygu Economaidd ac Eraill | 41,402 | - | 41,402 | - | - | - |
| Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) | 0 | 13,000 | 13,000 | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **643,367** | **-18,214** | **625,153** | **379,740** | **46,802** | **426,542** |

## 8. Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

### Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

**8.1** Cafwyd cynnydd net o £121,284k yn y DEL Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sef cynnydd o £104,541k mewn refeniw a chynnydd o £16,743k mewn cyfalaf.

**8.2** Mae'r gyllideb AME wedi gostwng £88,323k.

**8.3** Newidiadau i'r gyllideb Refeniw:

- cynnydd net o £103,138k o'r cronfeydd wrth gefn sef:
  - £2,971k i'r cronfeydd wrth gefn o'r Camau Gweithredu canlynol mewn perthynas â chyfraniad yr Adran i'r arbedion a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn;
    - £50k o'r Cam Gweithredu 'Strategaeth Plant a Phobl Ifanc';
    - £315k o'r Cam Gweithredu 'Arweinyddiaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion';
    - £240k o'r Cam Gweithredu 'Cwricwlwm ac Asesu';
    - £330k o'r Cam Gweithredu 'Cymwysterau a Dysgu';
    - £335k o'r Cam Gweithredu 'Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol';
    - £200k o'r Cam Gweithredu 'Busnes a Sgiliau';
    - £50k o'r Cam Gweithredu 'Dysgu Gydol Oes a Darparwyr';
    - £526k o'r Cam Gweithredu 'Ariannu a Chyllid Myfyrwyr';
    - £450k o'r Cam Gweithredu 'Rheoli Gwybodaeth'; a
    - £475k o'r Cam Gweithredu 'Prosiectau Strategol'.

  - £106,109k o'r cronfeydd wrth gefn i'r Camau Gweithredu canlynol:
    - £23,500k i'r Cam Gweithredu 'Ariannu a Chyllid Myfyrwyr' er mwyn cydnabod y pwysau a achoswyd gan y cynnydd yn nifer y myfyrwyr mewn Addysg Bellach ac Uwch;
    - £1,500k i'r Cam Gweithredu 'Cymorth i Ddysgwyr' er mwyn mynd i'r afael â phwysau ar anghenion addysgol arbennig ôl 16; a
    - £81,109k o ddyraniadau nad ydynt yn arian parod i'r Cam Gweithredu 'Ariannu a Chyllid Myfyrwyr' er mwyn cwrdd â chostau'r amhariadau i'r Llyfr Benthyciadau i Fyfyrwyr.

- trosglwyddo £1,442k o'r Cam Gweithredu 'Cyflenwi'r GIG' yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Cam Gweithredu 'Addysg Uwch' ar gyfer trosglwyddo myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd i'r Rhaglen MB i Raddedigion ym Mhrifysgol Abertawe a ariennir drwy CCAUC.

**8.4** Newidiadau i'r gyllideb Gyfalaf:

- trosglwyddiadau gwerth £16,743k gyda'i gilydd o'r cronfeydd wrth gefn i'r Cam Gweithredu 'Cyllid Cyfalaf' ar gyfer gwariant cyfalaf sy'n cynnwys:
  - £5,000k ar gyfer Buddsoddiad Cyfalaf Ysgolion;
  - £8,000k ar gyfer cynnal a chadw ac adnewyddu ysgolion; a
  - £3,743k ar gyfer cynnal a chadw Addysg Bellach.

**8.5** Hefyd, ceir nifer o drosglwyddiadau llai na £250k i MEGiau eraill ac ohonynt. Yn ogystal â hyn, cafwyd trosglwyddiadau o fewn y MEG yn sgil ailflaenoriaethu mewnol. Ceir y manylion yn nhablau'r Camau Gweithredu, a gyhoeddir ar y cyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

**Tabl 8.1 – Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

| DEL | £000oedd 2010-11 Refeniw | | | £000oedd 2010-11 Cyfalaf | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb[12] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[13] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Plant, Pobl Ifanc ac Effeithlonrwydd Ysgolion | 204,660 | 23,179 | 227,839 | 7,406 | - | 7,406 |
| Gwella Cymwysterau, y Cwricwlwm ac Addysg | 159,850 | -23,408 | 136,442 | - | - | - |
| Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes | 1,052,972 | 10,465 | 1,063,437 | 19,436 | - | 19,436 |
| Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau | 287,963 | 94,305 | 382,268 | 216,950 | 16,743 | 233,693 |
| **Cyfanswm y DEL** | **1,705,445** | **104,541** | **1,809,986** | **243,792** | **16,743** | **260,535** |
| **AME** | | | | | | |
| Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau | 0 | -104,418 | -104,418 | 203,398 | 16,095 | 219,493 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **1,705,445** | **123** | **1,705,568** | **447,190** | **32,838** | **480,028** |

[12] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010
[13] Fel yr uchod

## 9. Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

**9.1** Cafwyd cynnydd net o £5,352k yn DEL yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, sef gostyngiad o £4,291k mewn refeniw a chynnydd o £9,643k mewn cyfalaf.

**9.2** Mae'r gyllideb AME wedi gostwng £24k.

**9.3** Newidiadau i'r gyllideb Refeniw:

- trosglwyddo cyfanswm o £434k i mewn, sef £335k o'r Cam Gweithredu 'Cam-drin Domestig' a £99k o'r Cam Gweithredu 'Cymunedau yn Gyntaf' yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i'r Camau Gweithredu canlynol:
  - £194k i'r Cam Gweithredu 'Galluogi Pobl i Fyw'n Annibynnol';
  - £141k i'r Cam Gweithredu 'Mynd i'r Afael â Digartrefedd'; a
  - £99k i'r Cam Gweithredu 'Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol'.

- mae £465k wedi'i drosglwyddo o'r Cam Gweithredu 'Cynyddu'r Cyflenwad o Dai' i'r Cam Gweithredu 'Costau Staff' yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â throsglwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o Swyddfa Archwilio Cymru i Lywodraeth y Cynulliad.

- trosglwyddo cyfanswm o £3,060k i'r cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â chyfraniad gan yr Adran i'r arbedion a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn:
  - £20k o'r Cam Gweithredu 'Datblygu a Gweithredu Polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Ddatblygu Cynaliadwy a'r Amgylchedd';
  - £184k o'r Cam Gweithredu 'Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau o Gyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoliadau ynglŷn â'r Newid yn yr Hinsawdd, Atal Allyriadau, a Thlodi Tanwydd;
  - £306k o'r Cam Gweithredu 'Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Dŵr a Charthion';
  - £20k o'r Cam Gweithredu 'Hwyluso a Buddsoddi mewn Ynni a Diwydiant Glân a Diogel';
  - £1,267k o'r Cam Gweithredu 'Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff';
  - £35k o'r Cam Gweithredu 'Gweithredu Polisïau Gwarchod Natur a Môr';
  - £14k o'r Cam Gweithredu 'Datblygu Tystiolaeth Briodol';
  - £95k o'r Cam Gweithredu 'Rheoli a Gweithredu Deddfwriaeth yr UE ar Wastraff, Ansawdd yr Amgylchedd Lleol a Thir Halogedig';
  - £4k o'r Cam Gweithredu 'Hyrwyddo Tirweddau Gwarchodedig a Mynediad i Gefn Gwlad';

- £894k o'r Cam Gweithredu 'Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu';
- £100k o'r Cam Gweithredu 'Datblygu Polisi, Deddfwriaeth a Rheoliadau Tai'; a
- £121k o'r Cam Gweithredu 'Datblygu'r Polisi Cynllunio, yr Arolygiaeth Gynllunio a Rheoliadau'.

**9.4** Newidiadau i'r gyllideb Gyfalaf:

- trosglwyddo £8,443k o'r cronfeydd wrth gefn, sef:
  - £3,000k i'r Cam Gweithredu 'Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai' o Ymddiriedolaeth Buddsoddi Tai Cymru;
  - £1,743k i'r Cam Gweithredu 'Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai' o'r Rhaglen Gofal Ychwanegol;
  - £800k i'r Cam Gweithredu 'Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Dŵr a Charthion' ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd; a
  - £2,900k i'r Cam Gweithredu 'Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau o Gyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoliadau ynglŷn â'r Newid yn yr Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd' ar gyfer effeithlonrwydd ynni.

**9.5** Hefyd, ceir nifer o drosglwyddiadau llai na £250k i MEGiau eraill ac ohonynt. Yn ogystal â hyn, cafwyd trosglwyddiadau o fewn y MEG yn sgil ailflaenoriaethu mewnol. Ceir y manylion yn nhablau'r Camau Gweithredu, a gyhoeddir ar y cyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

**Tabl 9.1 Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

| DEL | £000oedd | | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010-11 Refeniw | | | 2010-11 Cyfalaf | | |
| | Cyllideb[14] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[15] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd | 119,710 | -1,916 | 117,794 | 93,120 | 3,700 | 96,820 |
| Yr Amgylchedd | 83,855 | -923 | 82,932 | 8,259 | - | 8,259 |
| Tai | 157,347 | -1,430 | 155,917 | 306,579 | 5,943 | 312,522 |
| Cynllunio | 8,074 | -121 | 7,953 | - | - | - |
| Adfywio | 14,894 | 99 | 14,993 | 73,435 | - | 73,435 |
| **Cyfanswm y DEL** | **383,880** | **-4,291** | **379,589** | **481,393** | **9,643** | **491,036** |
| **AME** | | | | | | |
| Tai | -77,000 | 24 | -76,976 | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **306,880** | **-4,267** | **302,613** | **481,393** | **9,643** | **491,036** |

[14] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010
[15] Fel yr uchod

## 10. Materion Gwledig

### Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

**10.1** Cafwyd gostyngiad net o £8,866k yn y DEL Materion Gwledig, sef gostyngiad o £5,866k mewn refeniw a gostyngiad o £3,000k mewn cyfalaf.

**10.2** Newidiadau i'r gyllideb Refeniw:

- trosglwyddo £6,400k i'r cronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys:
  - £5,000k o'r Cam Gweithredu 'Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid' o ganlyniad i'r gostyngiad yn y gwariant ar y Rhaglen i Ddileu TB yn ystod y flwyddyn; a
  - £1,400k o'r Cam Gweithredu 'Gweithredu'r Strategaeth Goetiroedd Newydd trwy Gomisiwn Coedwigaeth Cymru' mewn perthynas â'r incwm o ffermydd gwynt.

- mae £475k wedi'i drosglwyddo i'r Cam Gweithredu ‘Datblygu a Marchnata Sector Bwyd a Diod Cymru’ o'r Cam Gweithredu ’Darparu Cymorth ar gyfer Masnach Ryngwladol a sicrhau Mewnfuddsoddiad o Bob Rhan o'r Byd’ ym MEG yr Economi a Thrafnidiaeth ar gyfer cymorth masnach ryngwladol i ddiwydiant bwyd a diod Cymru.

- Cafwyd cynnydd o £160k yn y dyraniadau nad ydynt yn arian parod i'r Cam Gweithredu ‘Datblygu, Rheoli a Gorfodi Pysgodfeydd Cymru a Dyframaethu’ o'r cronfeydd wrth gefn i gwrdd â ffioedd a bennwyd yn ystod y flwyddyn.

**10.3** Newidiadau i'r gyllideb Gyfalaf:

- trosglwyddo £3,000k i'r cronfeydd wrth gefn o'r Cam Gweithredu 'Gweithredu'r Rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig' o ganlyniad i'r gostyngiad yn y gwariant ar gynlluniau cyfalaf o dan y Cynllun Datblygu Gwledig.

**10.4** Hefyd, ceir nifer o drosglwyddiadau llai na £250k i MEGiau eraill ac ohonynt. Ceir y manylion yn nhablau'r Camau Gweithredu, a gyhoeddir ar y cyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

**Tabl 10.1 Dyraniadau'r Maes Rhaglenni Gwariant Materion Gwledig**

| DEL | £000oedd 2010-11 Refeniw | | | £000oedd 2010-11 Cyfalaf | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb[16] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[17] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | 25,153 | -5,000 | 20,153 | - | - | - |
| Polisïau Gwledig Ewrop | 69,054 | -56 | 68,998 | 15,372 | -3000 | 12,372 |
| Y Sylfaen Dystiolaeth | 1,027 | - | 1,027 | 38 | - | 38 |
| Diwydiant Bwyd, Pysgod a Diod Cymru | 6,814 | 635 | 7,449 | 1,524 | - | 1,524 |
| Y Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chefn Gwlad | 23,988 | -1,445 | 22,543 | -205 | - | -205 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **126,036** | **-5,866** | **120,170** | **16,729** | **-3,000** | **13,729** |

[16] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010
[17] Fel yr uchod

## 11. Treftadaeth

### Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

**11.1** Cafwyd cynnydd net o £23,100k yn y DEL Treftadaeth, sef gostyngiad o £1,550k mewn refeniw a chynnydd o £24,650k mewn cyfalaf.

**11.2** Nid oes unrhyw newidiadau i'r dyraniad AME.

**11.3** Newidiadau i'r gyllideb Refeniw:

- trosglwyddo £100k i'r Cam Gweithredu 'Cadw, Gwarchod, Cynnal a Hyrwyddo Mynediad i'r Amgylchedd Hanesyddol' o'r Cam Gweithredu 'Gweithredu'r Rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig' yn y MEG Materion Gwledig ar gyfer y gwaith o ddatblygu'r System Gwybodaeth Ddaearyddol sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu a darparu Glastir.

- trosglwyddo £1,000k i'r cronfeydd wrth gefn. Dyma gyfraniad yr Adran i'r arbedion a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn, sef:
  - £453k o'r Cam Gweithredu 'Cefnogi a Chynnal Sector Celfyddydau Cryf drwy'r Cyngor Celfyddydau ac Eraill';
  - £74k o'r Cam Gweithredu 'Hybu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd';
  - £38k o'r Cam Gweithredu 'Hybu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Llyfrgelloedd';
  - £15k o'r Cam Gweithredu 'Arweinyddiaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd';
  - £207k o'r Cam Gweithredu 'Gweithredu Rhaglenni Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Effeithiol';
  - £137k o'r Cam Gweithredu 'Hyrwyddo Mwy o Ddefnydd o'r Gymraeg trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac Eraill';
  - £38k o'r Cam Gweithredu 'Cynyddu'r Galw Ymhlith Ymwelwyr a Gwaith Trawsnewid'; a
  - £38k o'r Cam Gweithredu 'Datblygu Profiad yr Ymwelydd'.

**11.4** Newidiadau i'r gyllideb Gyfalaf:

- trosglwyddo cyfanswm o £2,000k o'r cronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys:
  - £1,000k i'r Cam Gweithredu 'Hybu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes drwy Wasanaethau Amgueddfeydd' ar gyfer cynnal gwaith seilwaith brys yn Sain Ffagan; a
  - £1,000k i'r Cam Gweithredu 'Datblygu Profiad yr Ymwelydd' ar gyfer y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth.

- dyrannu £18,500k o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol i'r Cam Gweithredu 'Cefnogi a Chynnal Sector Celfyddydau Cryf trwy'r Cyngor Celfyddydau ac Eraill'. Mae hyn yn cynnwys:

- £3,500k ar gyfer Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe; a
- £15,000k ar gyfer Canolfan Gelfyddydol a Diwylliannol Pontio ym Mhrifysgol Bangor.

- trosglwyddo £3,500k i'r Cam Gweithredu 'Datblygu Profiad yr Ymwelydd' o'r Cam Gweithredu 'Darparu Cymorth Ariannol i Fusnesau' ym MEG yr Economi a Thrafnidiaeth ar gyfer y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth.

**11.5** Yn ogystal â hyn, cafwyd trosglwyddiadau o fewn y MEG yn sgil ailflaenoriaethu mewnol. Ceir y manylion yn nhablau'r Camau Gweithredu, a gyhoeddir ar y cyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

### Tabl 11.1 Dyraniadau'r Maes Rhaglenni Gwariant Treftadaeth

| DEL | £000oedd | | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010-11 Refeniw | | | 2010-11 Cyfalaf | | |
| | Cyllideb[18] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[19] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Cefnogi a Chynnal Sector Celfyddydau Cryf trwy'r Cyngor Celfyddydau ac Eraill | 36,530 | -646 | 35,884 | 1,090 | 17,785 | 18,875 |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 39,564 | 51 | 39,615 | 7,602 | 2,400 | 10,002 |
| Gweithredu Rhaglenni Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Effeithiol | 26,345 | -870 | 25,475 | 1,170 | -450 | 720 |
| Hyrwyddo Mwy o Ddefnydd o'r Gymraeg trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac Eraill | 17,919 | -109 | 17,810 | 125 | - | 125 |
| Cadw, Gwarchod, Cynnal a Hyrwyddo Mynediad i'r Amgylchedd Hanesyddol | 5,540 | 100 | 5,640 | 8,435 | 415 | 8,850 |
| Twristiaeth | 13,064 | -76 | 12,988 | 0 | 4,500 | 4,500 |
| **Cyfanswm y DEL** | **138,962** | **-1,550** | **137,412** | **18,422** | **24,650** | **43,072** |
| **AME** | | | | | | |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 2,058 | - | 2,058 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **141,020** | **-1,550** | **139,470** | **18,422** | **24,650** | **43,072** |

[18] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010
[19] Fel yr uchod

## 12. Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

### Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

**12.1** Cafwyd gostyngiad net o £12,086k yn y DEL Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad, sef gostyngiad o £7,086k mewn refeniw a gostyngiad o £5,000k mewn cyfalaf.

**12.2** Newidiadau i'r gyllideb Refeniw:

- trosglwyddo cyfanswm o £4,900k i'r cronfeydd wrth gefn, sef cyfraniad yr Adran i'r arbedion a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn o'r Camau Gweithredu canlynol:
  - £1,000k o'r 'Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol';
  - £1,000k o 'Estyn';
  - £100k o 'Cydweithio'n Lleol ac yn Rhanbarthol';
  - £800k o 'Creu'r Cysylltiadau'; a
  - £2,000k o 'Arian Cyfatebol'.

- trosglwyddwyd cyfanswm o £1,946k i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer y canlynol:
  - £1,196k i'r Cam Gweithredu 'RhNgCC' o'r Cam Gweithredu 'Y Gallu i Arwain a Rheoli' ar gyfer Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru;
  - £500k i'r Cam Gweithredu 'Buddsoddi i Arbed' o'r Cam Gweithredu 'Creu'r Cysylltiadau' ar gyfer rhaglen Llesgedd Gwent; a
  - £250k i'r cam gweithredu 'Costau Staff' o'r Cam Gweithredu 'Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad' ar gyfer Secondiadau'r Llywodraeth yng Nghymru.

**12.3** Newidiadau i'r gyllideb Gyfalaf:

- trosglwyddo £5,000k i'r cronfeydd wrth gefn o'r Cam Gweithredu 'Arian Cyfatebol', sef tanwariant yr Adran.

**12.4** Hefyd, ceir nifer o drosglwyddiadau llai na £250k i MEGiau eraill ac ohonynt. Ceir y manylion yn nhablau'r Camau Gweithredu, a gyhoeddir ar y cyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

**Tabl 12.1 Dyraniadau'r Maes Rhaglenni Gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad**

| DEL | £000oedd 2010-11 Refeniw | | | £000oedd 2010-11 Cyfalaf | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb[20] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[21] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol | 16,534 | -1,000 | 15,534 | - | - | - |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 2,963 | - | 2,963 | - | - | - |
| Estyn | 14,080 | -1,000 | 13,080 | 425 | - | 425 |
| Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad | 650 | -490 | 160 | - | - | - |
| Cydweithio'n Lleol ac yn Rhanbarthol | 1,560 | -100 | 1,460 | - | - | - |
| Creu'r Cysylltiadau | 3,321 | -1,300 | 2,021 | - | - | - |
| Y Gallu i Arwain a Rheoli | 1,196 | -1,196 | 0 | - | - | - |
| Arian Cyfatebol | 10,000 | -2,000 | 8,000 | 21,000 | -5,000 | 16,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **50,304** | **-7,086** | **43,218** | **21,425** | **-5,000** | **16,425** |

[20] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010
[21] Fel yr uchod

## 13. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

### Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

**13.1** Cafwyd cynnydd net o £2,024k yn y DEL Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, sef gostyngiad o £1,976k mewn refeniw a chynnydd o £4,000k mewn cyfalaf.

**13.2** Mae'r gyllideb AME wedi cynyddu £4,500k.

**13.3** Newidiadau i'r gyllideb Refeniw:

- trosglwyddo £2,650k net o'r cronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys:
  - trosglwyddo £3,000k i'r cronfeydd wrth gefn o'r Cam Gweithredu 'Costau Staff' fel cyfraniad i'r arbedion a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn;
  - trosglwyddo £4,530k o'r cronfeydd wrth gefn i'r Cam Gweithredu 'Costau Etholiad' ar gyfer costau'r refferendwm ar bwerau ychwanegol i'r Cynulliad; a
  - trosglwyddo £1,121k o'r cronfeydd wrth gefn i'r Cam Gweithredu 'Gweinyddu Cyffredinol' i ategu'r cyllid presennol ar gyfer y Cynllun Rhyddhau'n Gynnar.
- trosglwyddiad net o £853k o'r Cam Gweithredu 'Cyflenwi'r GIG' yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Cam Gweithredu 'Buddsoddi i Arbed' sef trosglwyddiad o £1,402k i mewn a £549k allan ar gyfer prosiectau cymeradwy.
- trosglwyddo £500k i'r Cam Gweithredu 'Buddsoddi i Arbed' o'r Cam Gweithredu 'Creu'r Cysylltiadau' yn y MEG Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad ar gyfer rhaglen Llesgedd Gwent.
- £1,196k i'r Cam Gweithredu 'RhNgCC' o'r Cam Gweithredu 'Y Gallu i Arwain a Rheoli' yn y MEG Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad ar gyfer Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru.
- £465k i'r Cam Gweithredu 'Costau Staff' o'r Cam Gweithredu 'Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai' o fewn MEG yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai mewn perthynas â throsglwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o Swyddfa Archwilio Cymru i Lywodraeth y Cynulliad.
- Cyfanswm o £400k i'r Cam Gweithredu 'Costau Staff' ar gyfer ariannu staff y Llywodraeth ar secondiad. Mae hyn yn cynnwys:
  - £250k o'r Cam Gweithredu 'Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad' yn y MEG Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad;
  - £150k o'r Cam Gweithredu 'Partneriaethau Llywodraeth Leol' yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

- £4,160k o'r Cam Gweithredu ‘Buddsoddi i Arbed’ i'r Cam Gweithredu ‘Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus’ ym MEG yr Economi a Thrafnidiaeth ar gyfer y prosiect Cysylltedd i Went.

**13.4** Hefyd, ceir nifer o drosglwyddiadau llai na £250k i MEGiau eraill ac ohonynt. Yn ogystal â hyn, cafwyd trosglwyddiadau o fewn y MEG yn sgil ailflaenoriaethu mewnol. Ceir y manylion yn nhablau'r Camau Gweithredu, a gyhoeddir ar y cyd â'r Nodyn Esboniadol hwn.

**Tabl 13.1 Dyraniadau'r Maes Rhaglenni Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**

| DEL | £000oedd<br>2010-11 Refeniw | | | £000oedd<br>2010-11 Cyfalaf | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb[22] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[23] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Costau a Chyflogau Staff | 244,612 | -16,685 | 227,927 | - | - | - |
| Costau Gweinyddu Canolog Eraill | 111,159 | 14,708 | 125,867 | 15,533 | 4,000 | 19,533 |
| **Cyfanswm y DEL** | **355,771** | **-1,976** | **353,795** | **15,533** | **4,000** | **19,533** |
| **AME** | | | | | | |
| Costau a Chyflogau Staff | 0 | 4,500 | 4,500 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **355,771** | **2,524** | **358,295** | **15,533** | **4,000** | **19,533** |

[22] Ffigurau'r Gyllideb yn unol â Chynnig y Gyllideb Atodol 2010-11, a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2010
[23] Fel yr uchod

## Atodiad 1 – Cysoni'r Gyllideb Weinyddol a Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r ddogfen hon yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, sy'n nodi'r newidiadau i'r adnoddau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu eu defnyddio yn 2010-11 a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos y cyllidebau ar sail weinyddol tra bo'r ffigurau yn y Cynnig Blynyddol am y Gyllideb yn seiliedig ar adnoddau.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys nifer o eitemau sy'n cael eu sgorio y tu allan i gyfrifon Llywodraeth y Cynulliad, ac felly nid ydynt yn sgorio fel rhan o'r Adnoddau sy'n Ofynnol gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn cysoni cyllidebau gweinyddol a chyllidebau adnoddau pob Prif Grŵp Gwariant (PGG).

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| | **£000oedd** |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Refeniw | 6,024,754 |
| Cyfalaf | 418,055 |
| **AME** | |
| Refeniw | 170,275 |
| Cyfalaf | **-** |
| **TME** | **6,613,084** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG | -318,808 |
| Benthyca â Chymorth | -5,388 |
| Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol (a'r costau casglu) | -895,283 |
| **Adnoddau y gofynnir amdanynt** | **5,393,605** |

### Cyfiawnder Cymdeithasol ac Llywodraeth Leol

| | **£000oedd** |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Refeniw | 4,391,319 |
| Cyfalaf | 63,095 |
| **AME** | |
| Refeniw | 14,423 |
| Cyfalaf | - |
| **TME** | **4,468,837** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Trethi Annomestig Cenedlaethol sy'n daladwy (a'r costau casglu) | -872,172 |
| **Adnoddau y gofynnir amdanynt** | 3,596,665 |

## Yr Economi a Thrafnidiaeth

| | £000oedd |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Refeniw | 570,751 |
| Cyfalaf | 426,542 |
| **AME** | |
| Refeniw | 54,402 |
| Cyfalaf | - |
| **TME** | **1,051,695** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Benthyca â Chymorth | -16,478 |
| Menter Cyllid Preifat (PFI) | -7,810 |
| Cyllid Cymru | 9,598 |
| Costau a Godir Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -1,736 |
| **Adnoddau y gofynnir amdanynt** | **1,035,269** |

## Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

| | £000oedd |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Refeniw | 1,809,986 |
| Cyfalaf | 260,535 |
| **AME** | |
| Refeniw | -104,418 |
| Cyfalaf | 219,493 |
| **TME** | **2,185,596** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -82 |
| Benthyca â Chymorth | -45,699 |
| **Adnoddau y gofynnir amdanynt** | **2,139,815** |

## Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

| | £000oedd |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Refeniw | 379,589 |
| Cyfalaf | 491,036 |
| **AME** | |
| Refeniw | -76,976 |
| Cyfalaf | - |
| **TME** | **793,649** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -3,090 |
| Benthyca â Chymorth | -95,831 |
| Costau Tai Ychwanegol (tu allan i TME) | 101,301 |
| **Adnoddau y gofynnir amdanynt** | **796,029** |

## Materion Gwledig

| | £000oedd |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Refeniw | 120,170 |
| Cyfalaf | 13,729 |
| **AME** | |
| Refeniw | - |
| Cyfalaf | - |
| **TME** | **133,899** |
| **Adnoddau y gofynnir amdanynt** | **133,899** |

## Treftadaeth

| | £000oedd |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Refeniw | 137,412 |
| Cyfalaf | 43,072 |
| **AME** | |
| Refeniw | 2,058 |
| Cyfalaf | - |
| **TME** | **182,542** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -6,274 |
| **Adnoddau y gofynnir amdanynt** | **176,268** |

## Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

| | £000oedd |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Refeniw | 43,218 |
| Cyfalaf | 16,425 |
| **AME** | |
| Refeniw | - |
| Cyfalaf | - |
| **TME** | **59,643** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -400 |
| **Adnoddau y gofynnir amdanynt** | **59,243** |

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| | £000oedd |
|---|---:|
| **DEL** | |
| Refeniw | 353,795 |
| Cyfalaf | 19,533 |
| **AME** | |
| Refeniw | 4,500 |
| Cyfalaf | - |
| **TME** | **377,828** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -4,640 |
| **Adnoddau y gofynnir amdanynt** | **373,188** |

## Atodiad 2 – Rhestr Eirfa

| | |
|---|---|
| **Adnoddau nad ydynt yn arian parod** | Costau sy'n daladwy ac a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw – er enghraifft, dibrisiant a darpariaethau. Ni ellir defnyddio adnoddau nad ydynt yn arian parod i gyllido gwario adnoddau sydd bron yn arian parod. |
| **Adnoddau sydd bron yn arian parod** | Trafodion a gronnwyd sydd fel rheol yn troi'n ffrwd arian parod yn fuan, er enghraifft, tâl, caffael cyfredol, grantiau refeniw a chymorthdaliadau. |
| **Adolygiad o Wariant** | Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob adran yn Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y tair blynedd i ddod. Mae'r cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy fformiwla Barnett. |
| **Cam Gweithredu** | O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y Camau Gweithredu ar gael yn:<br><br>http://cymru.gov.uk/about/budget/draftbudget2010/?lang=cy |
| **CNLC** | Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad |
| **Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru** | Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu ac felly nid yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth y Cynulliad nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y Costau Uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU. |
| **Cwmpasoedd gwariant** | Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r cyfyngiadau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r MEGiau. |

| | |
|---|---|
| **Cyfalaf** | Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL a Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth y Cynulliad gyfyngiadau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw. |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol. |
| **Cyllidebu adnoddau** | Mae cyllideb Llywodraeth y Cynulliad wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd. Dechreuwyd gwahaniaethu rhwng adnoddau nad ydynt yn arian parod ac arian sydd bron yn arian parod fel rhan o'r symudiad i gyllidebu adnoddau ar ôl Adolygiad 2002 o Wariant. |
| ***Cymru'n Un*** | Cytundeb rhwng Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n cyflwyno rhaglen flaengar, sefydlog ac uchelgeisiol ar gyfer llywodraethu yn ystod y tymor Cynulliad hwn. Mae'n cynnig agenda flaengar ar gyfer gwella ansawdd bywyd pobl yn holl gymunedau Cymru, o bob cefndir ac yn enwedig y mwyaf agored i niwed a difreintiedig. Gallwch ddarllen *Cymru'n Un* a'r cynllun gweithredu atodol yn:<br><br>http://cymru.gov.uk/about/programmeforgovernment/1wales/?lang=cy |
| **Cynnig y Gyllideb** | Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig a thynnu arian parod hyd at derfyn penodol, o Gronfa Gyfunol Cymru. |
| **Derbyniadau** | Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth y Cynulliad yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel adnoddau a dderbynnir a chânt eu dangos fel ffigur negyddol. |
| **Dibrisiant** | Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei bod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth y Cynulliad ond mae'n eitem nad yw'n ymwneud ag arian parod. |

| | |
|---|---|
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, aml-flwyddyn yn yr un ffordd â DEL. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr ac yn ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. Caiff lefelau Gwariant a Reolir yn Flynyddol eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Adroddiad Cyllideb a Chyn-Gyllideb Trysorlys EM. |
| **Maes Rhaglen Wariant** | O fewn pob MEG, caiff cyllidebau eu dyrannu i Feysydd Rhaglenni Gwariant yn ôl y math o wasanaethau y byddant yn eu darparu. |
| **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** | Caiff DEL Llywodraeth y Cynulliad ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ar hyn o bryd mae 9 ohonynt: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; yr Economi a Thrafnidiaeth; Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai; Materion Gwledig; Treftadaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| **Refeniw** | Gwariant cyfredol, er enghraifft, arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul. |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | Terfyn y gyllideb aml-flwyddyn ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail tair blynedd mewn Adolygiadau o Wariant. |